**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.30 O'R GLOCH 08.04.24**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Thomas Mort.

**PRESENNOL**

Cyng. Edwina Evans (Cadeirydd), Christopher Braithwaite (Is-Gadeirydd), Tegid John, Rhian Corps, Ceri Griffiths, Gordon Howie, Martin Hughes, Giles Bentham, Reg Chapman, Wendy Williams, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 4 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Reg Chapman i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor a dymunodd y gorau iddo at y dyfodol. Fe arwyddwyd dogfen Datganiad Derbyn Swydd gan y Cyng. Chapman ar gychwyn y cyfarfod.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mawrth 4ydd 2024 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

'Roedd y Cyng. Giles Bentham ddim yn fodlon gyda beth oedd wedi ei ysgrifennu yn y cofnodion ynglyn ar mater gyda'r Archwiliwr Mewnol ag 'roedd wedi anfon gwelliant i'w gynnwys yn y cofnodion i bob Aelod. 'Roedd anghytundeb gyda hyn am bod rhai Aelodau yn datgan bod yr hyn oedd yn y cofnodion yn iawn. Fe gafwyd pleidlais ynglyn a chynnwys y gwelliant neu beidio ag 'roedd 5 o blaid peidio ei gynnwys a 2 o blaid.
'Roedd y Cyng. Giles Bentham ddim yn fodlon gyda beth oedd wedi ei ysgrifennu yn y cofnodion ynglyn ar mater oedd y Cyng. Martin Hughes wedi dod gerbron y Cyngor ynglyn ar gyllideb ag 'roedd wedi anfon gwelliant i'w gynnwys yn y cofnodion i bob Aelod. 'Roedd anghytundeb gyda hyn am bod rhai Aelodau yn datgan bod yr hyn oedd yn y cofnodion yn iawn. Fe gafwyd pleidlais ynglyn a chynnwys y gwelliant neu beidio ag 'roedd 5 o blaid peidio ei gynnwys a 2 o blaid. Cytunwyd bod angen adolygu y gyllideb ag i roi y mater hwn ar agenda mis nesa.

**DATGAN BUDDIANT**

Nid oedd neb yn datgan buddiant ar unrhyw fater.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi bod mewn cyswllt gyda Chyngor Gwynedd i adael iddynt wybod bod drws toiledau y dynion yn toiledau cyhoeddus Min y Don yn agored ond ddim yr un merched. 'Roedd wedi cael ateb yn datgan bod rhywun yn torri clo drws y toiledau hyn bob tro oedd un newydd yn cael ei osod arno ond byddai y toiledau yn agor am y tymor ar y 25ain o fis diwethaf beth bynnag. 'Roedd y toiledau hyn wedi altro ar ol cael eu peintio ond 'roedd un o'r cisterns yn nhoiledau y merched yn gollwg ag 'roedd wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a hyn ag oedd y broblem wedi cael ei datrys yn syth, ond 'roedd wedi cael gwybod bod un o'r uranials yn nhoiledau y dynion wedi blocio ond bellach mae y broblem hon wedi ei datrys.'Roedd wedi cael gwybod bod y peiriant talu ag arddangos yn maes parcio Bron y Graig Isaf ddim yn gweithio ag 'roedd wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i adael iddynt wybod am hyn ag mae y broblem wedi ei sortio bellach. 'Roedd wedi derbyn e-bost ynghyd a lluniau gan Swyddog o'r Adran Bwrdeistrefol yn dangos y gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud i wellhau edrychiad Parc Bron y Graig.
Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar y traeth ynglyn a chlerio y tywyod ond nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon gwneud y gwaith hyn. 'Roedd wedi mynychu cyfarfod gyda HAL ag yn ei llongyfarch am y gwaith da maen't yn ei wneud gyda'r pwll. 'Roedd yn bresennol yng

ceremoni dadarchuddiol y placiau glas yr wythnos diwethaf a wedi bod o gwmpas y dref gyda Lis Saville Roberts A.S yr un diwrnod. 'Roedd wedi mynychu cyfarfod ynghyd ar Cyng. Annwen Hughes, Rhian Corps a Reg Chapman gyda Rhain Elin George o Gyngor Gwynedd ynglyn a Cynllun Celf Harlech a datganwyd eu bod yn bwriadu gosod y darn celf ar y tir o flaen yr Eglwys. 'Roedd yr Aelodau ddim yn hapus i hyn gael ei wneud ag yn datgan byddai yn well iddo gael ei osod yn maes parcio Bron y Graig Isaf a cytunwyd bod y Cyng. Reg Chapman yn cysylltu gyda Ms George unwaith byddai wedi anfon  y briff atynt.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £100,004.28 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £14,620.28 o wariant yn fwy na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.
Adroddodd y Clerc bod copïau o gynllun gyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2024/25 wedi cael ei hanfon i bob Aelod yn barod.

**Projectau 2024**

Adroddodd y Cyng. Christopher Braithwaite bod ganddo ddim diweddariad ynglyn ar uchod a bydd angen ail drafod y mater hwn ar ol i'r Aelodau adolygu cyllideb y Cyngor.
Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod mae y Cyngor oedd yn gyfrifol am ddewis y tender i wneud y gwaith yn y rhandiroedd ag ar ol trafodaeth cytunwyd i rhoid y gwaith i Mr. Dylan Trahearn.

**Ethol Cynghorydd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod gan y Swyddog Etholiadol bod cais am etholiad wedi cael ei dderbyn ganddo ond ni fydd yn anfon y rhybudd am hyn tan ar ol Etholiad Comisynydd yr Heddlu sydd yn cael ei gynnal ar yr 2il o Fai.

**HAL**

Adroddodd y Cadeirydd bod hi ar Cyng. Giles Bentham a Martin Hughes wedi mynychu cyfarfod gyda rhai o aelodau Bwrdd yr uchod ar yr 17eg o fis diwethaf. 'Roedd y cyfarfod hwn i fod i gael ei gynnal ar yr 21ain o fis diwethaf. Cafwyd wybod bod y cyfarfod hwn yn un mwy cadarnhaol a bod y Bwrdd wedi penderfynnu gosod y caffi i rhai annibynnol er mwyn dod a cyllid ychwanegol i mewn ag ar hyn o bryd  bod 5 wedi dangos diddordeb yn y safle. Nid oedd dyddiad ar gyfer cyfarfod arall wedi ei drefnu. Datganwyd pryder bod y Cyngor heb dderbyn copi o fantolen misol y cwmni ers mis Ionawr.

**Adolygiad o Awdurdodi Taliadau/Rheolau Sefydlog**

Datganwyd bod angen dilyn yr hyn oedd wedi ei gynnwys yn y Rheolau Sefydlog ar Rheolau Ariannol a cytunwyd i ail edrych ar y Rheolau Ariannol yng nghyfarfod mis nesa o'r Cyngor ag iddynt gynnwys taliadau brys.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu tŷ menter gwledig (Ail-gyflwyniad) - Ty'n y Gwater, Harlech (NP5/61/647A)**

Cefnogi y cais hwn.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £6,982.84 yn y cyfrif rhedegol a £72,358.15 yn y cyfrif cadw.

786.............................................Cadeirydd

**Taliadau yn ystod y mis**

Mrs Kim Howie - £25.99 - taliad misol am gynnal gwefan y Cyngor
Cyllid a Thollad - £110.00 – treth cyflog y Clerc
Un Llais Cymru - £350.00 - tal aelodaeth am y flwyddyn
E. W. Owen a'i Chwmni - £228.00 – cwblhau P.A.Y.E ar lein
Mrs Annwen Hughes - £250.00 – lwfans gweinyddol am y 6 mis diwethaf
Cyngor Gwynedd - £821.02 - gwagio biniau ysbwriel y ddau barc chwarae
Mr. G. J. Williams - £156.00 - torri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,824.75 – cynnig precept (taliad misol)

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Ceri Griffiths a wnaeth yr Is-Gadeirydd, y Cyng. Christopher Braithwaite gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi anfon copïau o gyfrifion y Cyngor yn diweddu 31ain o Fawrth 2024 i bob Aelod yn barod. Fe aethpwyd drwy'r cyfrifon yn ofalus ag fe gymeradwyddwyd y cyfrifon yn unfrydol gan yr Aelodau ar ol newid "A oes amrywiad annealladwy o'r gyllideb i Oes yn lle Na" oherwydd bod y Cyngor wedi gwario £26,982 ar offer chwarae newydd a nid oeddynt wedi ei gyllido amdano. Cytunwyd gan pawb bod y llyfr cyfrifon yn cael ei arwyddo gan y Cadeirydd a'r Clerc.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Cyllid a Thollad - £310.50 – ad-daliad T.A.W.

**GOHEBIAETH**

**Cyngor Gwynedd – Adran Gyfreithiol**

Wedi derbyn e-bost ynghyd a chopi drafft o Brydles y toiledau cyhoeddus Y Castell, Sgwar y Castell gan yr uchod ag yn gofyn i'r Cyngor gael golwg arni a chadarnhau os ydynt yn fodlon gyda'r cynnwys ai'i pheidio. Cytunwyd bod y Clerc yn anfon copi o'r Brydles hon ymlaen i bob Aelod a'i thrafod yng nghyfarfod nesa y Cyngor.

**Cyngor Gwynedd – Adran Gyfreithiol**

Wedi derbyn e-bost ynghyd a chopiau o'r Rhybuddion Cyhoeddus ynglyn a cau'r ffordd I Triathlon Harlech ar y 14eg o'r mis hwn er gwybodaeth i'r Cyngor.

**Cyngor Gwynedd – Adran Economaidd**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a Chyfeillion Ellis Wynne ag yn gofyn a fyddai modd trefnu cyfarfod rhwng aelodau y Cyfeillion ar Cyngor hwn oherwydd bod y Cyfeillion yn awyddus i gydwetihio gyda'r Cyngor. Cytunodd y Cyng. Martin Hughes fynychu y cyfarfod hwn ar ran y Cyngor.

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor eu bod yn cario allan y gwaith o godi waliau sych, draenio a ffensio ar llwybr ceffyl 16/23 yn ystod y mis hwn.

**Mr. Steffan Howell Jones**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod fel hyfforddwr tim peldroed dan 17 Penrhyndeudraeth ag oherwydd bod gymaint o gemau angen eu chwarae yn gofyn a fyddai'n bosib defnyddion cae pledroed Harlech os byddai angen. Cytunwyd i rhoid caniatad iddo ag hefyd i ddatgan bod yn iawn iddynt ddefnyddio toiledau ystafell y band.

**UNRHYW FATER ARALL**

Cytunwyd i ddechrau cyfarfod mis nesa am 7.00 o'r gloch am ei fod yn gyfarfod blynyddol.
Cafwyd wybod bod Gogledd Cymru Active wedi cychwyn yn yr ardal.
Cafwyd wybod bod pwyllgor yr Hen Lyfrgell wedi bod yn llwyddianus i gael grant o £6,500
Eisiau rhoid goleuadau nadolig ar agenda mis nesa.
Eisiau gwybod beth sydd yn digwydd gyda'r cwrt tenis.

**ARWYDDWYD..............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD......................................................** 788